**Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad a gynhaliwyd ar Nos Fawrth, 11eg Mawrth, 2025 am 7.30pm yn Neuadd Dihewyd.**

**PRESENNOL**

Cynghorwyr : Melinda Williams (Cadeirydd), Gerwyn Owen, Alan Henson, Lyn Williams, Lynford Thomas, Glyn Davies , Dan Evans,

1. **YMDDIHEURIADAU** Y Cyng. Harry Williams, Haf Hughes, Hywel Ifans

Agorwyd y cyfarfod gyda theyrnged i'r Cyng. E.J. Davies (Johnny) a fu farw ar y 19eg o Chwefor. Yn dilyn munud o dawelwch estynwyd cydymdeimlad y Cyngor â'i wraig, Nesta , ei fab a'i ferch Alun ac Anne, a'u teuluoedd.

2. **PERSONOL**

3. **DATGELU BUDDION PERSONOL – dim i'w datgelu**

4. **CADARNHAU COFNODION 11/2/24**
   Cynigiwyd bod y cofnodion yn gywir gan y Cyng.Lynford Thomas ac eiliwyd gan y Cyng. Lyn Williams a'u derbyniwyd yn unfrydol.

5. **MATERION YN CODI**
   i. 7f (Tachwedd). **Cyfrif Banc**. Mae'r newidiadau ar gyfer bancio ar lein ar y gweill gyda'r Clerc i godi taliadau a'r Cyng. Melinda Williams i awdurdodi'r taliadau. Y Clerc yn dal i ddisgwyl cadarnhad gan Lloyds.
   ii. **11a (Rhagfyr) Mesurau Traffig Ysgol Dyffryn Aeron.** Y Cyngor wedi derbyn ein sylwadau am y twmpath ac wedi gofyn I'r contractwyr I sorto fe ac yn gofyn I'r Cyngor I gadarnhau pan fydd yn hapus gyda'r gwaith/

6. **ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR:** Derbyniwyd ymdiheuriad gan y Cyng. Ceris Jones.

7. **CYLLID**
   a. Tal y Clerc Chwefror £217.84
   b. Cadi & Grace £30.00 (Blodau)
   c. Neuadd Dihewyd £30
   d. Neuadd Felinfach £40
   e. Tony Bretland **£**651.40 (yn cynnwys codiad o 2%)
   f. Les Verdin 108.53 (yn cynnwys codiad o 2%)
   g. Post a Chostau Clerc £69.09

h. Yn dilyn trafodaeth ac ar gynnig y Cyng. Glyn Davies ac eiliwyd gan Alan Henson **penderfynwyd** talu Aelodaeth Un Llais Cymru 2025-26 ar swm o £303.00
i. Lloyds Banc Ffioedd Cyfri'r Cadeirydd 10/1/25 – 9/2/25 £4.25
j. Lloyds Banc Ffioedd Cyfrif Llanfihangel Ystrad 10/1/25 – 9/2/25 - £5.77

**8. CYNLLUNIO**

I. A250084 Ymgeisydd: C Clarke Safle: Frongoy, Cribyn, SA48 7NL. Yn dilyn trafodaeth o'r cynlluniau penderfynwyd cefnogi'r cais.

II. A250100 Ymgeisydd: Melise Blakeslee Safle: Ffynonoer Uchaf, Felinfach, Lampeter. SA48 7SA. Yn dilyn trafodaeth o'r cynlluniau penderfynwyd cefnogi'r cais.

**9. Di-Wifr Neuadau Pentref.**

Yn absenoldeb y Cyng. Hywel Ifans, penderfynwyd gohirio'r sgwrs tan y cyfarfod nesaf.

**10. GOHEBIAETH**

a. **CFFI Felinfach.** Derbyniwyd llythyr am rodd ariannol gan CFFI Felinfach. Gofynwyd i ni drafod y cais yn cyfarfod hwn yn hytrach nag ym mis Mehefin yn ôl ein harfer. Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd gofyn, trwy'r Clerc, a oedd yna rheswm penodol/ymgyrch ar y gweill fel bo angen y nawdd cyn mis Mehefin.

**11. UNRHYW FATER ARALL**

a. Cyhoeddodd y Clerc bod y Cyng. Harry Williams wedi cysylltu i nodi ei fod yn ymddiswyddo o'r Cyngor oherwydd afiechyd. Gofynwyd i'r Clerc i ysgrifennu llythyr ar ran y Cyngor yn diolch iddo am ei wasanaeth.

b. Yn sgil y ffaith bod y Cynghorau Sir wedi derbyn arian ychwanegol i wella cyflwr hewlydd, penderfynwyd gofyn i'r Sir pe bai modd dechrau ar y gwelliannau yn ardal Dihewyd (Castle Hill SA48 7PL) lle mae twll mawr ar gornel sydd yn beryglus iawn i yrrwyr ac angen sylw brys.

**12. DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF**

Ebrill 8fed, Ysgol Cribyn am 7.30 o'r gloch.